

# Y Swydd

## Teitl y Swydd Swyddog Cyfathrebu

**Yn atebol i:** Rheolwr Codi Arian

**Cyflog:** £22,000 - £25,000 y flwyddyn  
Cyfraniadau pensiwn cyflogwr o 3%  
Cytundeb cyfnod penodol - 1 flwyddyn

**Lleoliad:** Penygraig, De Cymru, gan weithio gartref o bryd i'w gilydd

**Oriau:** Amser llawn (37 awr yr wythnos)

Fel mudiad sy'n ystyriol o deuluoedd, rydym yn cydnabod bod rhwymedigaethau y tu allan i'r gwaith yn bwysig a bod cydbwyso ymrwymadau gwaith a'r teulu yn gallu bod yn heriol ar adegau. Rydym yn cynnig amrediad o gyfleoedd gweithio hyblyg.

**Lwfans gwyliau blynyddol:** 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â diwrnodau gŵyl y banc.

Sylwch na fydd ceisiadau a gyflwynir heb lythyr eglurhaol yn cael eu hystyried ar gyfer y rôl.

## Cyflwyniad

Yn y cymunedau lle rydym yn gweithio, mae Plant y Cymoedd yn helpu pobl i gyflawni pethau rhyfeddol ac rydym am sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn gwybod am yr hyn rydym yn ei gynnig ac yn cael cyfle i fod yn rhan ohono. Hyd yn hyn, nid ydym wedi cael swydd sydd wedi rheoli sut rydym yn cyfathrebu â'r byd ehangach ac mae'r rôl hon yn gyfle cyffrous i gydgysylltu cyfathrebiadau Plant y Cymoedd i sicrhau ein bod yn siarad â llais clir tra'n cadw'r hynodwydd sy'n rhan mor bwysig o'n hunaniaeth.

Fel Swyddog Cyfathrebu, byddwch yn gyfrifol am weithio gyda'r Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid, y Rheolwr Codi Arian a Thimau ein Hybiau Cymunedol a Theuluol a mentrau cymdeithasol i ddatblygu a chydlynu'r gwaith o gyflawni cynllun cyfathrebu Plant y Cymoedd.

Bydd y cynllun hwn yn hysbysu rhyngweithiadau ag ystod eang o fudd-ddeiliaid gan gynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, rhoddwyr presennol a darpar roddwyr a chyrrff cyhoeddus a phreifat sydd â diddordeb yn ein gwaith, yn ogystal â hyrwyddo gwaith Plant y Cymoedd i'r cyhoedd yn ehangach.

Bydd yn ymgorffori ymgyrchoedd e-bost, digidol ac argraffedig, gan weithio gyda'r wasg a'r cyfryngau, nodi a phrofi cyfleoedd digidol newydd a sicrhau bod gwefan Plant y Cymoedd yn ddeniadol, yn hygyrch ac yn gyfredol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i rywun sydd â brwdfrydedd, sgiliau a phrofiad i fwrw ymlaen â strategaeth gyfathrebu'r mudiad, sicrhau bod ein cyfathrebiadau'n cynrychioli bywiogrwydd ein mudiad a dweud wrth y byd am yr hyn a wnawn.

## Dyletswyddau a chyfrifoldebau

- Gweithio gyda phobl ar draws y mudiad i ddatblygu strategaeth sy'n cydgysylltu ac yn symleiddio ein cyfathrebiadau tra'n sicrhau eu bod yn cwmpasu ehangder ein gwaith a'n hymgysylltiad.
- Adolygu'r sianeli cyfathrebu presennol a sut y gellir eu halinio'n well i sicrhau cysondeb o ran brand a negeseuon.
- Defnyddio data i ddadansoddi ein buddiolwyr a'n cynulleidfaoedd gyda'r bwriad o gynyddu ymwybyddiaeth o'n gwaith a sicrhau mwy o incwm masnachol a chodi arian.
- Creu a chydlynu dosbarthiad cyfathrebiadau, yn ddigidol ac mewn print, i amrywiaeth o wahanol gynulleidfaoedd gan gynnwys pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau, rhoddwyr presennol a darpar roddwyr, cyrrff cyhoeddus a'r cyhoedd yn gyffredinol.
- Cydlynu presenoldeb Plant y Cymoedd ar gyfryngau cymdeithasol i sicrhau cysondeb negeseuon ar draws prosiectau yn ogystal â rheoli cynnwys yn uniongyrchol ac ymateb i ymholiadau lle bo angen.
- Creu a chynnal cronfa ddata o gysylltiadau.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Codi Arian i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau codi arian i'n cysylltiadau i recriwtio mwy o roddwyr.
- Gweithio gyda'r Rheolwr Codi Arian i warchod a chadw cefnogwyr presennol Plant y Cymoedd gan gynnwys creu ac anfon diweddariadau a chylchlythyrau a chyfrannu at adroddiadau.

- Ysgrifennu datganiadau i'r wasg a gweithio gyda'r cyfryngau i sicrhau a rheoli sylw i Blant y Cymoedd.
- Gwerthuso ymgyrchoedd, gan ddarparu adroddiadau ar ymgysylltiad digidol, yr hyn a ddysgwyd, ac argymhellion i wella perfformiad yn y dyfodol.
- Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod holl weithgarwch cyfathrebu'n cyd-fynd â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), y Cod Ymarfer Codi Arian ein Polisi Preifatrwydd a'n Polisi Iaith Gymraeg.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy'n ofynnol gan y Rheolwr Codi Arian, y Cyfarwyddwr Busnes a Chyllid a'r Prif Weithredwr.

# Y Person

## Sgiliau a Rhinweddau:

Mae'n hanfodol bod gennych y sgiliau a rhinweddau canlynol:

- Sgiliau ysgrifennu rhagorol.
- Agwedd greadigol at gynnwys ac ymgysylltu mewn print ac yn ddigidol.
- Gwybodaeth am offer cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys amserlennu, postio, adrodd a dadansoddeg.
- Gwybodaeth am systemau rheoli cynnwys gwefannau ac offer cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys amserlennu, postio, adrodd a dadansoddeg.
- Gwybodaeth am becynnau dylunio a golygu delweddau.
- Ymagwedd hynod drefnus at waith a chynllunio. Yn ddyfeisgar ac yn gallu gweithio ar eich menter eich hun
- Y gallu i gyd-weithio'n effeithiol ag eraill i osod nodau a datrys problemau.
- Y gallu i weithio y tu allan i oriau swyddfa arferol i fonitro gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol. Rydym yn gweithio ar sail amser i ffwrdd am yr oriau a weithir y tu allan i'r oriau swyddfa.

## Dymunol

- Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg
- Profiad o gasglu, rheoli a dadansoddi data.
- Profiad o godi arian.

# Y Wybodaeth

- Ffurflen Gais** Ffurflenni cais o [Lynfa@valleyskids.org](mailto:Lynfa@valleyskids.org) neu **Lynfa Hull, Rheolwr Swyddfa, Plant y Cymoedd, 1 Cross Street, Penygraig, Tonypany, CF40 1LD.** I'w ddychwelyd i'r un cyfeiriad.
- Sylwch na fydd ceisiadau a gyflwynir heb lythyr eglurhaol yn cael eu hystyried ar gyfer y rôl.
- Dyddiad Cau** Y dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cais wedi'u llenwi yw **11.59yb Dydd Gwener 28ain o Ionawr 2022.**
- Gofynnir ichi gynnwys rhif ffôn lle gellir cysylltu â chi (naill ai yn ystod y dydd neu gyda'r nos fel sy'n well gennych).
- Cyfweliadau** Cynhelir y cyfweliadau yn bersonol neu arlein, yn dibynnu ar ganllawiau'r Llywodraeth, ar y 4ydd o Chwefror.
- Gwybodaeth Bellach** Os oes angen mwy o wybodaeth amoch neu os hoffech drafod unrhyw agwedd ar y swydd cyn gwneud cais, ffoniwch 01443 420870 a gofynnwch i siarad â Lynne Thomas.
- AMLINELLIAD O'R TELERAU AC AMODAU
- Cyflog** Y cyflog yw £22,000 - £25,000 y flwyddyn.
- Oriau** Llawn amswer - 37 awr yr wythnos. I'w gweithio'n hyblyg dros yr wythnos gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau.
- Gwyliau** 25 diwrnod y flwyddyn ynghyd â gwyliau statudol.
- Cyfnod Prawf** Mae cyfnod prawf o chwe mis a'r cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod hwn yw un mis.
- Cyfnod Rhybudd** Yn ystod dwy flynedd gyntaf y swydd, gall staff roi mis o rybudd ac ar ôl dwy flynedd rhaid rhoi deufis o rybudd.
- Lleoliad** Lleolir y swydd ym Mhenygraig, Tonypany, gan weithio gartref o bryd i'w gilydd
- Buddion eraill** Mae Plant y Cymoedd yn lle cyffrous i weithio. Mae'n fudiad bach sy'n ymroddedig i'r ardal a phobl De Cymru. Mae'r mudiad hefyd yn cynnig hyblygrwydd o ran sut mae staff yn gweithio.